

# Esbonio Bil Treth y Cyngor

# GWYBODAETH

## Am Eich Bil Treth y Cyngor 2025/26



# Esbonio Bil Treth y Cyngor

## Fformatau Eraill

Os oes angen unrhyw ran o'r wybodaeth hon arnoch mewn fformat neu iaith wahanol, ffoniwch Llinell Gymorth Treth y Cyngor ar **01792 635382**.

## Diogelu Data

Mae'n rhaid i ni ddiogelu'r arian cyhoeddus rydym yn ei drafod, ac felly mae'n bosib y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gedwir gennym i atal a chanfod twyll. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu'r wybodaeth hon at yr un dibenion â Gwasanaeth Budd-daliadau'r Cyngor, adrannau eraill y Cyngor a sefydliadau eraill sy'n trafod arian cyhoeddus.

Ceir rhagor o wybodaeth ar-lein yn:  
[www.abertawe.gov.uk/GwybodaethBersonolRefeniwaBudd-daliadau](http://www.abertawe.gov.uk/GwybodaethBersonolRefeniwaBudd-daliadau)

## Hysbysiad Prosesu Teg

Fel rhan o ymarfer cenedlaethol, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni ddarparu gwybodaeth Treth y Cyngor i Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r wybodaeth yn cynnwys enwau, cyfeiriadau ac unrhyw ostyngiadau a hawliwyd.

Mae Swyddfa'r Cabinet ar ran Swyddfa Archwilio Cymru yn cymharu'r wybodaeth hon â'r Gofrestr Etholiadol ac os yw'n ymddangos bod gostyngiad yn cael ei hawlio'n anghywir, byddwn yn gwneud ymholiadau pellach i weld a ddylid canslo'r disgownt.

Cysylltwch â ni ar unwaith os ydych wedi anghofio dweud wrthym nad oes gennych hawl i ostyngiad mwyach. I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch Is-adran Treth y Cyngor (01792) 635382.

## Mynediad ar-lein at eich cyfrif Treth y Cyngor

Y ffordd hawsaf o reoli eich Treth y Cyngor yw creu Cyfrif Treth ar-lein. Byddwch yn gallu mewngofnodi i weld biliau, balansau a hanes talu.

Mae hwn yn wasanaeth newydd a gaiff ei gyflwyno yn Abertawe yn ystod 2025/2026.

Os hoffech gofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn, gallwch wneud hynny ar-lein yn:  
[www.abertawe.gov.uk/fynghyfrifrethcyngor](http://www.abertawe.gov.uk/fynghyfrifrethcyngor)

## Apeliadau

Mae'r band Treth y Cyngor a briodolir i bob eiddo yn cael ei osod gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Gallwch holi ynghylch eich band prisio drwy ffonio eu llinell gymorth 03000 505505.

I gael rhagor o wybodaeth, gallwch ysgrifennu at Asiantaeth y Swyddfa Brisio - Valuation Office Agency, Durham Customer Service Centre, Wycliffe House, Green Lane, Durham, DH1 3UW, neu ewch i'w gwefan yn [www.voa.gov.uk](http://www.voa.gov.uk) lle gallwch wneud apêl ar-lein.

Sylwer bod gofyn i chi dalu'r swm llawn o Dreth y Cyngor a ddangosir ar eich bil hyd nes y penderfynir ar unrhyw apêl.

## Bandiau treth y cyngor

Mae'r rhan fwyaf o anheddau'n destun Treth y Cyngor. Mae un bil i bob annedd, p'un a yw'n dŷ, yn fyngalo, yn fflat, yn fflat deulawr, yn gartref symudol neu'n gwch preswyl, a ph'un a yw wedi'i berchenogi neu'n cael ei rentu.

Newidiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru nifer ac ystod y bandiau o 1 Ebrill 2005. Ailfandiwyd pob annedd yng Nghymru i'r naw band a nodir isod. Roedd y bandiau newydd yn seiliedig ar werth cyfalaf y farchnad agored ar 1 Ebrill 2003.

BAND PRISIO	YSTOD GWERTHOEDD
A	Dim mwy na £44,000
B	Dros £44,000 ond dim mwy na £65,000
C	Dros £65,000 ond dim mwy na £91,000
D	Dros £91,000 ond dim mwy na £123,000
E	Dros £123,000 ond dim mwy na £162,000
F	Dros £162,000 ond dim mwy na £223,000
G	Dros £223,000 ond dim mwy na £324,000
H	Dros £324,000 ond dim mwy na £424,000
I	Dros £424,000

Mae eich bil Treth y Cyngor yn nodi pa fand sy'n berthnasol i'ch eiddo.

## Cael gwybod mwy am eich band Treth y Cyngor

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yn cynnal Rhestr Brisiant Treth y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys gosod eiddo newydd o fewn band Treth y Cyngor a newid bandiau ar gyfer eiddo pan fo angen.

I ddeall pam y mae eich eiddo mewn band penodol, ewch i GOV.UK ([www.gov.uk/guidance/understand-how-council-tax-bands-are-assessed.cy](http://www.gov.uk/guidance/understand-how-council-tax-bands-are-assessed.cy)): 'Sut y caiff eiddo domestig ei asesu ar gyfer bandiau Treth y Cyngor'.

## Eiddo Gwag

Mae rhai eiddo gwag wedi'u heithrio (gweler tudalennau 5 a 6). Bydd eiddo gwag eraill yn perthyn i ddosbarth penodedig o anheddau (gweler isod).

## Premiymau

Mae ambell eiddo yn Abertawe yn denu premiwm Treth y Cyngor 100%. Mae hyn yn berthnasol i eiddo sy'n cael eu dynodi'n rhai 'gwag yn y tymor hir' (yn wag am fwy na blwyddyn) ac i'r rheini a ddynodir yn 'ail gartrefi' (eiddo wedi'u dodrefnu nad ydynt yn cael eu defnyddio fel unig neu brif breswylfa person).

Mae rhai eithriadau i'r premiwm a all fod yn berthnasol fel a restrir isod:

Mathau o anheddau	Diffiniad	Yn berthnasol i
Dosbarth 1	Anheddau sy'n cael eu marchnata i'w gwerthu (amser wedi'i gyfyngu i flwyddyn)	Ail gartrefi ac eiddo gwag tymor hir
Dosbarth 2	Anheddau sy'n cael eu marchnata i'w gosod (amser wedi'i gyfyngu i flwyddyn)	
Dosbarth 3	Rhandai sy'n rhan o'r brif annedd neu'n cael eu trin fel hynny	
Dosbarth 4	Anheddau a fyddai'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa rhywun pe na bai'n byw yn llety'r Lluoedd Arfog	
Dosbarth 5	Lleiniau carafanau ac angorfeydd cychod sy'n cael eu defnyddio	Ail gartrefi
Dosbarth 6	Anheddau lle mae amod cynllunio: a. yn cyfyngu ar ddeiliadaeth am gyfnod parhaus o 28 niwrnod o leiaf mewn unrhyw gyfnod o flwyddyn b. yn nodi y gellir defnyddio'r annedd fel llety gwyliau yn unig neu c. yn nodi y gellir defnyddio'r annedd fel llety gwyliau yn unig neu	
Dosbarth 7	Anheddau sy'n ymwneud â swyddi	

Ceir rhagor o wybodaeth yn: [www.abertawe.gov.uk/premiymautrethycyngor](http://www.abertawe.gov.uk/premiymautrethycyngor)

## Pobl ag anabledau

Gellir caniatáu gostyngiad os yw person anabl yn byw mewn eiddo ac mae unrhyw un o'r cyfleusterau canlynol yn berthnasol:

- ystafell a ddarperir i ddiwallu anghenion y person anabl. Ni all hyn fod yn ystafell wely'r person anabl.
- ystafell ymolchi neu gegin ychwanegol a ddarperir ar gyfer y person â'r anabled
- mae digon o le ar gael er mwyn defnyddio cadair olwyn dan do

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth a gwneud cais ar-lein yn: [www.abertawe.gov.uk/trethycyngorpersonanabl](http://www.abertawe.gov.uk/trethycyngorpersonanabl) neu fel arall ffoniwch Adran Treth y Cyngor ar (01792) 635382.

## Gostyngiadau

Mae'r elfen bersonol (50%) o'r dreth yn tybio bod o leiaf ddau oedolyn yn yr eiddo. Os ydych chi'n byw ar eich pen eich hun, mae gennych hawl i gael gostyngiad o 25%. Gall gostyngiadau hefyd fod yn berthnasol gan fod rhai grwpiau o bobl, sydd wedi'u rhestru isod, yn cael eu diystyru wrth gyfrif nifer yr oedolion mewn annedd:

- Myfyrwyr amser llawn, gan gynnwys priodau myfyrwyr nad ydynt yn dod o Brydain, darpar nyrsys, prentisiaid a hyfforddeion Hyfforddiant Ieuenctid
- Cleifion sy'n preswyllo mewn ysbyty
- Pobl sy'n derbyn gofal mewn cartrefi gofal
- Pobl â nam meddyliol difrifol
- Pobl sy'n aros mewn hosteli penodol neu lochesi nos
- Pobl ifanc 18 ac 19 oed sydd yn yr ysgol neu newydd adael yr ysgol
- Gweithwyr gofal sy'n gweithio am gyflog isel, fel arfer i elusennau
- Pobl sy'n gofalu am rywun ag anabled nad yw'n briod, yn bartner, neu'n blentyn dan 18 oed
- Aelodau o luoedd arfog sy'n ymweld, a rhai sefydliadau rhyngwladol penodol
- Aelodau o gymunedau crefyddol (mynachod a lleianod)
- Pobl yn y carchar (ac eithrio'r rheini sydd yn y carchar am beidio â thalu Treth y Cyngor neu ddirwy)
- Pobl sy'n gadael gofal
- Wcreiniaid sy'n cael caniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros ynddi dan y Cynllun Nawdd 'Cartrefi i Wcráin'

**Mae rhagor o wybodaeth a rhai ffurflenni cais am ostyngiadau i'w cael ar-lein yn: [www.abertawe.gov.uk/gostyngiadautrethycyngor](http://www.abertawe.gov.uk/gostyngiadautrethycyngor) neu gallwch ffonio Is-adran Treth y Cyngor ar (01792) 635382**

**Os yw eich bil yn nodi bod gostyngiad wedi'i ganiatáu, rhaid i chi ddweud wrth y Cyngor am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar eich hawl. Os na fyddwch yn gwneud hynny, efallai bydd angen i chi dalu cosb.**

## Anheddau wedi'u heithrio

Mae rhai anheddau wedi'u heithrio, gan gynnwys eiddo wedi'u **meddiannu** sydd:

- Yn cael eu meddiannu gan fyfyrwyr yn unig
- Yn cael eu meddiannu gan bobl sydd â nam meddyliol difrifol yn unig
- Yn cael eu meddiannu gan bobl dan 18 oed yn unig
- Yn cael eu meddiannu gan bobl sy'n gadael gofal yn unig
- Barics a llety parau priod y lluoedd arfog. Bydd eu meddianwyr yn cyfrannu at gost gwasanaethau lleol drwy drefniant arbennig, ac eiddo **heb eu meddiannu** sydd:
  - Heb ddodrefn (wedi'u heithrio am hyd at chwe mis)
  - Yn eiddo i elusen (wedi'u heithrio am hyd at chwe mis)

- Angen addasiad saerïol neu waith atgyweirio sylweddol neu mae gwaith o'r fath eisoes yn mynd rhagddo. Mae'r eithriad hwn wedi'i gyfyngu i uchafswm o ddeuddeng mis
- Wedi'u gadael yn wag gan rywun sydd wedi mynd i'r carchar
- Wedi'u gadael yn wag gan rywun sydd wedi symud i dderbyn gofal personol mewn ysbyty neu gartref neu yn rhywle arall.
- Wedi'u gadael yn wag gan rywun sydd wedi symud, er mwyn darparu gofal personol i berson arall
- Wedi'u gadael yn wag gan fyfyrwr sy'n berchen arnynt, sy'n astudio yn rhywle arall
- Yn aros am brofiant neu lythyrau gweinyddu (ac ar gyfer hyd at chwe mis ar ôl profiant)
- Wedi cael eu hadfeddu
- Yn gyfrifoldeb ar ymddiriedolwr methdalwr
- Yn wag gan na chaniateir meddiannaeth yn ôl y gyfraith
- Yn aros i weinidog crefydd eu meddiannu
- Llain heb garafán arno, neu angorfa heb gwch yno
- Rhandy gwag annedd a feddiannir

Os ydych yn credu y gall eich eiddo fod wedi'i eithrio, ffoniwch Is-adran Treth y Cyngor ar (01792) 635382.

### Ffioedd

Gallwch dalu eich Treth y Cyngor 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos, gyda cherdyn debyd neu gredyd drwy ein gwefan yn: [www.abertawe.gov.uk/trethcyngor](http://www.abertawe.gov.uk/trethcyngor) neu drwy ffonio ein System Taliadau Ffôn Awtomataidd ar 0300 4562775 (Cymraeg) neu 0300 4562765 (Saesneg) – (cyfradd leol).

Os hoffech dalu eich Treth y Cyngor mewn 12 rhandaliad misol, ffoniwch Is-adran Treth y Cyngor ar (01792) 635382 neu e-bostiwch [TrethCyngor@abertawe.gov.uk](mailto:TrethCyngor@abertawe.gov.uk)

### Help gyda thalu eich Treth y Cyngor a/neu eich rhent

Os yw eich incwm a'ch cyfalaf o dan lefel benodol, efallai eich bod yn gymwys i gael help i dalu Treth y Cyngor drwy gyflwyno cais am Ostyngiad Treth y Cyngor (GTC). Os ydych yn talu rhent ar gyfer y cartref rydych yn byw ynddo, efallai y gallwch gael help i dalu'ch rhent drwy gyflwyno cais am Fudd-dal Tai (BT) neu Gredyd Cynhwysol.

### Ni allwn dderbyn ceisiadau newydd am Fudd-dal Tai gan y rhan fwyaf o bobl oedran gweithio.

Fodd bynnag, gellir gwneud cais newydd am Fudd-dal Tai ar hyn o bryd os ydych:

- Yn byw mewn llety dros dro neu fathau penodol o lety â chymorth
- Yn bensiynwr sengl neu'n rhan o bâr sy'n bensiynwyr lle mae'r ddau ohonoch o oedran cymwys i dderbyn Credyd Pensiwn

- Yn bâr oedran cymysg\* sydd wedi derbyn taliadau Credyd Pensiwn yn barhaus ers 14/05/2019 neu'n gynharach
- Yn bâr oedran cymysg\* sydd wedi derbyn taliadau Credyd Pensiwn neu fudd-dal Tai yn barhaus ers 14/05/2019 neu'n gynharach os ydych wedi newid cyfeiriad

\*Pâr oedran cymysg yw pâr lle mae un ohonoch o oedran cymwys i dderbyn Credyd Pensiwn y wladwriaeth ac mae un ohonoch o oedran gweithio.

Os nad yw'r categorïau uchod yn berthnasol i chi ac mae angen help arnoch gyda'ch rhent gallwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau.

### Gwneud cais am Ostyngiad Treth y cyngor a/neu Fudd-dal Tai

Dylid gwneud cais am GTC a/neu BT cyn gynted â'ch bod yn meddwl bod angen cymorth arnoch gan y bydd unrhyw ostyngiad neu fudd-dal, fel arfer, yn cael eu hystyried o'r dyddiad y caiff eich cais ei dderbyn.

Bydd swm yr incwm a'r cyfalaf y gallwch ei gael a bod â hawl o hyd i GTC a / neu BT yn amrywio gan ddibynnu ar eich amgylchiadau chi a'ch teulu. Er enghraifft, os oes gennych blant neu os yw aelod o'ch aelwyd yn anabl, gallech gael mwy o incwm nag unigolyn sengl ond bydd gennych hawl o hyd i ryw faint o help.

Os yw eich cyfalaf yn fwy nag £16,000, ni fyddai hawl gennych fel arfer i gael GTC a/neu BT. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau i'r rheol hon.

### Gallwch wneud cais am Ostyngiad Treth y Cyngor neu Fudd-dal Tai mewn sawl ffordd:

- **Ar ein gwefan** – gallwch wneud cais gan ddefnyddio ein ffurflen ar-lein yn [www.abertawe.gov.uk/ffurflennibudddaliadau](http://www.abertawe.gov.uk/ffurflennibudddaliadau)
- **Drwy ymweld â'r Ganolfan Gyswilt** yn y Ganolfan Ddinesig lle bydd ein staff yn falch o'ch helpu gyda'r broses cyflwyno cais. Yr oriau agor yw 8.30am i 4.30pm o ddydd Llun i ddydd Iau a 8.30am i 4.00pm ar ddydd Gwener.
- **Drwy ymweld â'ch Swyddfa Dai Ardal leol.** Mae manylion ar gael ar-lein yn: [www.abertawe.gov.uk/SwyddfeyddTaiArdal](http://www.abertawe.gov.uk/SwyddfeyddTaiArdal)

### Cyngor ar wneud cais am GTC a / neu BT

Os hoffech gael help neu gyngor ynghylch cyflwyno cais, ffoniwch 01792 635353.

Gallwch ddefnyddio gwefan y Llywodraeth [www.gov.uk/benefits-calculators](http://www.gov.uk/benefits-calculators) i gael amcangyfrif o faint o Ostyngiad Treth y Cyngor y gallech fod â hawl iddo. Bydd angen eich bil Treth y Cyngor arnoch a'ch holl incwm a chyfalaf wrth law ar gyfer y cyfrif.

## Amcangyfrif o Arian Wrth Gefn

At 31/3/2025 £'000		At 31/3/2026 £'000
12,000	Balansau Cyffredinol	12,000
	Cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd:	
16,976	Ysgolion	16,976
82,150	Arall	79,628
<b>111,126</b>		<b>108,604</b>

## Rhaglen Gyfalaf

2024/25 £'000		2025/26 £'000
190,979	Gwariant	155,377
	Ariannwyd gan:	
86,509	Benthyciadau etc	57,867
53,020	Grantiau	42,927
51,450	Arian y Cyngor	54,583
<b>190,979</b>		<b>155,377</b>

## Ariannu Cyfanswm y Gofynion Gwario

2024/25 £'000		2025/26 £'000
346,777	Grant Cynnal Refeniw	379,218
88,244	Trethi Annomestig Cenedlaethol	89,191
0	Disgwyllir cyllid allanol cyfanredol	7,000
	Parthed Yswiriant Gwladol	
156,226	Gofyniad Treth y Cyngor	167,712
<b>591,247</b>	Cyfanswm yr Ariannu	<b>643,121</b>
	Yr Asesiad Gwario Safonol a	
<b>582,507</b>	Gyhoeddwyd ar gyfer yr Awdurdod yw	<b>633,123</b>

## Cynghorau Cymuned

	Praeseptau		Band D Treth y Cyngor	
	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26
	£	£	£	£
Llandeilo Ferwallt	104,000.00	108,000.00	51.64	52.79
Clydach	170,672.00	179,205.00	64.28	66.77
Gorseinon	149,490.00	158,449.00	45.00	46.92
Tre-gŵyr	34,698.00	39,350.00	17.22	19.15
Pengelli a				
Waungron	18,921.00	21,500.00	41.95	47.88
Llanilltud Gŵyr	7,580.00	8,338.00	21.84	22.84
Cilâ	22,500.00	28,000.00	10.35	12.79
Llangynydd, Llanmadoc				
a Cheriton	7,900.00	8,900.00	15.22	16.67
Llangyfelach	30,000.00	30,000.00	30.96	30.74
Llanrhidian Uchaf	180,447.15	184,051.68	112.85	114.46
Llanrhidian Isaf	7,000.00	7,500.00	20.41	21.87
Llwchwr	149,570.00	160,411.00	42.77	45.06
Mawr	109,112.00	113,150.00	143.19	148.88
Y Mwmbwls	819,600.00	866,350.00	81.37	85.01
Penllergaer	14,000.00	16,000.00	9.10	9.77
Pennard	96,000.00	98,700.00	62.18	63.27
Pen-rhys	12,750.00	12,750.00	26.34	26.84
Pontarddulais	155,621.43	174,000.00	65.80	72.74
Pontlliw a Thircoed	40,050.00	40,050.00	38.62	37.36
Porth Einon	8,000.00	8,500.00	17.02	18.05
Reynoldston	12,500.00	8,000.00	40.06	25.32
Rhossili	6,500.00	7,200.00	33.16	35.29
Y Crwys	30,074.88	36,090.00	42.42	49.78
Cilâ Uchaf	19,000.00	24,326.00	32.04	41.09
	<b>2,205,986.46</b>	<b>2,338,820.68</b>		

## Cyllideb Refeniw 2025/26

	Ailddatgan 2024/25		2025/26	
	Gwariant Gros £,000	Incwm £,000	Gwariant Gros £,000	Incwm £,000
<b>Gwasanaethau Corfforaethol</b>				
Cyfarwyddiaeth y TRhC, Cyfathrebu a Marchnata Corfforaethol Uned Design Print, Uned Gwasanaethau Cwsmeriaid Corfforaethol Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu, Gwasanaethau Maerol, Datblygu'r We, Swyddogaeth Perfformiad a Chyflawni	23,782	1,140	24,944	1,127
Gwasanaethau Cyfreithiol, Gwasanaeth y Crwner, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, Uned Gwasanaethau Rheoli Argyfyngau, Gwasanaethau Digidol		22,642	23,817	
<b>Cyllid</b>				
Strategaeth Ariannol, Gwasanaethau Cyfrifeg, Archwilio Mewnol, Budd-daliadau Tai, Treth y Cyngor, Ardrethi Busnes, Gweithgareddau Caffael a Masnachol	127,413	92,325	129,582	92,305
<b>Addysg</b>				
Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, gwella addysg prydau ysgol, anghenion addysgol arbennig, cynllunio ac adnoddau addysg	257,521	40,609	278,702	50,001
<b>Gwastraff, Trafnidiaeth, Adeiladau ac Eiddo</b>				
Rheoli gwastraff, casglu sbwriel, ailgylchu, priffyrdd, cludiant ysgol goleuadau stryd, draenio tirac amddiffyn yr arfordir, diogelwch ar y fyrrdd, meysydd parcio, gwasanaethau carthffosiaeth a gwasanaethau eiddo ac adeiladau.	97,025	40,843	107,799	46,626
<b>Hamdden, Adfywio, Tai a Diogelu'r Cyhoedd</b>				
Diwylliant, chwaraeon, hamdden a thwristiaeth, parciau, glanhau strydoedd, cynllunio ac adfywio'r ddinas diogelu'r cyhoedd a gwasanaethau tai.	55,727	23,696	59,794	22,478
<b>Gwasanaethau Cymdeithasol</b>				
Amddiffyn plant a chefnogi teuluoedd, cefnogaeth i alluogi pobl sy'n agored i niwed i fyw'n annibynnol, gofal preswyl tymor hir a thymor byr, diogelwch cymunedol, ymyrryd yn gynnar partneriaeth, perfformiad a chomisiynu, trechu tlodi, dysgu gydol oes a gwasanaethau pobl ifanc.	257,957	87,300	288,325	92,259
<b>A Holl Wasanaethau Cyngor y Ddinas a'r Sir</b>	<b>819,425</b>	<b>285,913</b>	<b>889,146</b>	<b>304,796</b>
<b>Eitemau Eraill</b>				
Darpariaeth Gorfforaethol ar gyfer Chwyddiant	6,889	6,889	4,671	4,671
<b>Ardollau sy'n daladwy</b> (na chânt eu trin fel treuliau arbennig) Awdurdod lechyd Porthladd Bae Abertawe	84	84	69	69
Cydbwyllgor corfforaethol	191	191	191	191
<b>Cyfraniadau</b>				
Awdurdod Tân Cyfun	18,330	18,330	19,711	19,711
Costau Ariannu Cyfalaf	36,894	36,894	33,894	33,894
<b>Gwariant Refeniw Net</b>	<b>881,813</b>	<b>285,913</b>	<b>947,682</b>	<b>304,796</b>
Newid yn y gweddillion	-7,277	-7,277	-2,522	-2,522
<b>Cyfanswm y Gyllideb y mae ei Angen</b>	<b>874,536</b>	<b>285,913</b>	<b>945,160</b>	<b>304,796</b>
Cymorth treth annomestig dewisol	418	418	418	418
<b>Cyfanswm y mae ei angen ar Ddinas a Sir Abertawe</b>	<b>874,954</b>	<b>285,913</b>	<b>945,578</b>	<b>304,796</b>
Praeseptau Cyngor Cymuned	2,206	2,206	2,339	2,339
<b>Cyfanswm y gwariant y mae ei angen</b>	<b>877,160</b>	<b>285,913</b>	<b>947,917</b>	<b>304,796</b>

## Eich Arweiniad i Dreth y Cyngor 2025/26

Gall lefel Treth y Cyngor a delir yn ardal Dinas a Sir Abertawe fod yn wahanol oherwydd bod gan rai ardaloedd Gyngorau Cymuned. Yn yr ardaloedd hyn, yn ogystal â Threth y Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, telir tâl ychwanegol am Wasanaethau Cyngor Cymuned. Dangosir y cyfanswm ar gyfer 2025/26 yn y tabl isod.

	Band	Band	Band	Band	Band	Band	Band	Band	Band	Band
	A	B	C	D	E	F	G	H	I	
<b>Treth y Cyngor 2025/2026</b>	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£
Dinas a Sir Abertawe	1,159.74	1,353.03	1,546.32	1,739.61	2,126.19	2,512.77	2,899.35	3,479.22	4,059.09	
<hr/>										
<b>Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru</b>	252.45	294.52	336.60	378.67	462.82	546.97	631.12	757.34	883.56	
<hr/>										
<b>ARDALOEDD HEB Gyngorau Cymuned</b>	1,412.19	1,647.55	1,882.92	2,118.28	2,589.01	3,059.74	3,530.47	4,236.56	4,942.65	
<hr/>										
<b>Ardaloedd GYDA Chyngorau Cymuned</b>	Band	Band	Band	Band	Band	Band	Band	Band	Band	Band
	A	B	C	D	E	F	G	H	I	
	£	£	£	£	£	£	£	£	£	£
Llandeilo Ferwallt	1,447.38	1,688.61	1,929.84	2,171.07	2,653.53	3,135.99	3,618.45	4,342.14	5,065.83	
Clydach	1,456.70	1,699.48	1,942.27	2,185.05	2,670.62	3,156.19	3,641.75	4,370.10	5,098.45	
Gorseinon	1,443.47	1,684.04	1,924.63	2,165.20	2,646.36	3,127.51	3,608.67	4,330.40	5,052.13	
Tre-gŵyr	1,424.96	1,662.44	1,899.94	2,137.43	2,612.42	3,087.40	3,562.39	4,274.86	4,987.33	
Pengelli a Waungron	1,444.11	1,684.79	1,925.48	2,166.16	2,647.53	3,128.90	3,610.27	4,332.32	5,054.37	
Llanilltud Gŵyr	1,427.42	1,665.31	1,903.22	2,141.12	2,616.93	3,092.73	3,568.54	4,282.24	4,995.94	
Ciâl	1,420.72	1,657.50	1,894.29	2,131.07	2,604.64	3,078.21	3,551.79	4,262.14	4,972.49	
Llangynydd, Llanmadog a Cheriton	1,423.30	1,660.52	1,897.74	2,134.95	2,609.38	3,083.82	3,558.25	4,269.90	4,981.55	
<hr/>										
Llangyfelach	1,432.68	1,671.46	1,910.24	2,149.02	2,626.58	3,104.14	3,581.70	4,298.04	5,014.38	
Llanrhidian Uchaf	1,488.50	1,736.57	1,984.66	2,232.74	2,728.91	3,225.07	3,721.24	4,465.48	5,209.72	
Llanrhidian Isaf	1,426.77	1,664.56	1,902.36	2,140.15	2,615.74	3,091.33	3,566.92	4,280.30	4,993.68	
Llwchwr	1,442.23	1,682.60	1,922.97	2,163.34	2,644.08	3,124.83	3,605.57	4,326.68	5,047.79	
Mawr	1,511.44	1,763.35	2,015.26	2,267.16	2,770.97	3,274.79	3,778.60	4,534.32	5,290.04	
Y Mwmbwls	1,468.86	1,713.67	1,958.48	2,203.29	2,692.91	3,182.53	3,672.15	4,406.58	5,141.01	
Penllergaer	1,418.70	1,655.15	1,891.60	2,128.05	2,600.95	3,073.85	3,546.75	4,256.10	4,965.45	
Pennard	1,454.37	1,696.76	1,939.16	2,181.55	2,666.34	3,151.13	3,635.92	4,363.10	5,090.28	
Pen-rhys	1,430.08	1,668.43	1,906.78	2,145.12	2,621.81	3,098.51	3,575.20	4,290.24	5,005.28	
Pontarddulais	1,460.68	1,704.13	1,947.58	2,191.02	2,677.91	3,164.81	3,651.70	4,382.04	5,112.38	
Pontlliw a Thircoed	1,437.10	1,676.61	1,916.13	2,155.64	2,634.67	3,113.70	3,592.74	4,311.28	5,029.82	
Porth Einon	1,424.22	1,661.59	1,898.96	2,136.33	2,611.07	3,085.81	3,560.55	4,272.66	4,984.77	
Reynoldston	1,429.07	1,667.24	1,905.43	2,143.60	2,619.96	3,096.31	3,572.67	4,287.20	5,001.73	
Rhossli	1,435.72	1,675.00	1,914.29	2,153.57	2,632.14	3,110.71	3,589.29	4,307.14	5,024.99	
Y Crwys	1,445.38	1,686.27	1,927.17	2,168.06	2,649.85	3,131.64	3,613.44	4,336.12	5,058.80	
Ciâl Uchaf	1,439.58	1,679.51	1,919.44	2,159.37	2,639.23	3,119.09	3,598.95	4,318.74	5,038.53	